
PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Iechyd a Diogelwch





## Adroddiad Blynyddol
## 2011

## CYFLWYNIAD

Croeso i'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2011. Mae'r Adroddiad yn rhoi gwybodaeth ystadegol am nifer o feysydd a lle bo modd cymherir perfformiad y Brifysgol yn erbyn data Cenedlaethol.

Mae'r Atodiad i'r Adroddiad yn rhoi gwybodaeth am waith yr adran Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn ganolog.

### Golwg gyffredinol

Mae'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i lywio gwaith yr adran gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, yr agenda iechyd ac anghenion adweithiol. Mae'r ystadegau ar gyfer y flwyddyn yn dangos gwelliant cyffredinol yn y rhan fwyaf o'r meysydd mesuradwy, gydag er enghraifft ychydig o ostyngiad mewn damweiniau a nifer y tanau a chynnydd yn nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch.

Mae cynllunio a chefnogi materion iechyd a diogelwch yn parhau i gael eu goruchwylio gan y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

Nid yw'r Brifysgol wedi cael unrhyw Arolygiadau adweithiol, Hysbysiadau Statudol nac Erlyniadau yn ystod y flwyddyn.

### Sialensiau o'n Blaen

Nodwyd yn yr adroddiad y llynedd y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â chyflogwyr ac yn cyfarwyddo ei arolygiadau. Mae'r newidiadau yn dwyn ffrwyth erbyn hyn ac yn debygol o arwain at fwy o arolygiadau wedi eu targedu, llai o ryngweithio gyda chyflogwyr a chyflwyno dull o godi tâl am gyngor a ddarperir. Bydd y tâl yn adlewyrchu dull o weithredu "ffi am ddiffyg" gan yr HSE ac, yn dibynnu ar sut caiff ei weithredu'n lleol, gall arwain at newid mawr yn ffordd draddodiadol yr Arolygwr o roi cefnogaeth.

Wrth gwrs, rydym yn wynebu nifer o heriau eraill, sy'n amrywio o fod yn fwy gofalus gyda chyllid i'r angen cynyddol i gefnogi Colegau ac Adrannau wrth iddynt hwy yn eu tro ddatblygu i adlewyrchu'r newidiadau mewn strategaethau a gweithgareddau. Ni ddylai unrhyw un o'r heriau hyn fod yn anorchfygol, ond rhagwelir mai'r anhawster mwyaf fydd sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth yn cael eu targedu i gael yr effaith fwyaf, heb golli golwg ar y gwaith bob dydd sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf gan staff a myfyrwyr. Mae sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu o fewn y gyfraith trwy ddarparu lle iach a diogel i weithio ac astudio yn parhau i fod yn brif amcan.


***Gareth W. Jones***

*Pennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch*



| **CYNNWYS** | Tudalen |
|---|---|
| Damweiniau a digwyddiadau | 2 |
| Absenoldeb oherwydd salwch | 4 |
| Larymau tân a thanau | 4 |
| Hawliadau am iawndal, cyfreithia a phrif ddigwyddiadau | 5 |
| Hyfforddi a datblygu | 6 |
| Archwiliadau a hunanwerthuso | 6 |
| Gwefan | 6 |
| Datblygu polisïau a dogfennau | 7 |
| Tŷ Gobaith | 7 |
| Grŵp Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol | 7 |
| Gwaith a gynllunnir ar gyfer 2012 | 8 |
| Adroddiad Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch | 9 |

Damweiniau a digwyddiadau

Yn ystod 2011 adroddwyd am **81** o ddamweiniau'n gysylltiedig ag anafiadau, ychydig o ostyngiad ar y 95 a adroddwyd yn 2010.





Er mwyn canfod cyfradd gymharol sy'n caniatáu ar gyfer yr amrywiad blynyddol yn nifer y staff a myfyrwyr defnyddir cymhareb o ddamweiniau "fesul mil mewn risg". Mae hyn hefyd yn cael ei werthuso yn ôl cyfartaledd cenedlaethol y sector addysg uwch.




| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 45.43 | 36.8 | 45.26 | 30.1 | 25 | 30 | 23.8 | 27.5 | 32.2 | 30 | 27 |
| Cyfartaledd y Sector | 50.5 | 44.2 | 41.3 | 40.05 | 36.86 | 34.85 | 33.3 | 30.7 | 30.7 | 31.72 | 30.71 |

Yn ystod 2011 adroddwyd am 60 damwain gan staff, yn dangos cymhareb o **27** damwain fesul 1,000[1]. Mae hyn yn ostyngiad o 30 damwain y 1000 yn 2010 ac yn cymharu'n ffafriol â'r sector addysg uwch[2] a adroddodd am 30.71 damwain fesul 1,000 o staff yn 2011.

O ran myfyrwyr, adroddwyd am 21 damwain yn 2011, sy'n cyfateb â **1.9** damwain fesul 1,000 o fyfyrwyr[3]. Yn yr un modd â ffigurau'r staff, roedd hyn yn ychydig o ostyngiad ers 2010.




| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 1.96 | 1.9 | 1.82 | 1.4 | 1 | 2.8 | 1.4 | 1.6 | 1.5 | 2.6 | 1.9 |
| Cyfartaledd y sector | 2.7 | 2.7 | 2.1 | 2.43 | 2.59 | 2.63 | 2.7 | 2.7 | 2.3 | 2.6 | 2.67 |

Cyfanswm y damweiniau yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2011 oedd **3**; i gyd yn ymwneud ag aelodau staff.

Mae hwn yn ostyngiad o gyfanswm o **7** yn 2010 ac yn cyfateb i **1.3** fesul 1,000 o staff. Y damweiniau adroddadwy RIDDOR oedd:

- absenoldeb 3-diwrnod ar ôl straenio cyhyr wrth symud dodrefn.
- absenoldeb 3-diwrnod ar ôl i sbaner lithro a thorri bawd.
- absenoldeb 3-diwrnod ar ôl syrthio i lawr grisiau.

***Sylwer:*** *O fis Ebrill 2012 ymlaen ni fydd angen adrodd am absenoldeb a achoswyd gan anaf neu ddigwyddiad yn y gwaith tan yr 8fed diwrnod o absenoldeb.*

Gwelodd y sector addysg uwch ychydig o gynnydd yn nifer y damweiniau adroddadwy i fyfyrwyr yn 2011, yn dangos 0.16 fesul 1000 o fyfyrwyr, o

[1] Yn seiliedig ar 2227 aelodau o staff yn ystod y flwyddyn


[2] Gwybodaeth a gasglwyd gan 116 Prifysgolion / Sefydliadau

[3] Yn seiliedig ar 10,801 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn


gymharu â 0.14 yn 2010. Syrthiodd y cyfraddau staff ychydig i 2.1 fesul 1000 o staff ar draws y sector.

Defnyddir cyfartaledd treigl dros 5 mlynedd i lyfnhau unrhyw amrywiadau oherwydd dylanwad hapddigwyddiadau ar samplau bychan.

**Damweniau adroddadwy staff (RIDDOR) fesul 1,000 'mewn risg' (cyfartaledd treigl 5 mlynedd)**




**Damweiniau adroddadwy myfyrwyr (RIDDOR) fesul 1,000 'mewn risg' (cyfartaledd treigl 5 mlynedd)**





O 2012 ymlaen ni fyddwn bellach yn gallu cymharu ystadegau RIDDOR hanesyddol am staff gyda chyfraddau damweiniau a digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol, oherwydd bydd y ddeddfwriaeth berthnasol[4] yn newid ym mis Ebrill 2012.

Achosion Damweiniau

Bob blwyddyn bydd damweiniau a digwyddiadau yn cael eu gwerthuso a'u rhoi mewn categorïau, gan ddefnyddio "damwain yn gysylltiedig â", i nodi achos cyffredinol neu waelodol. Maent yn gategorïau eang oherwydd natur amrywiol ac ar hap y digwyddiadau.

O'r 81 adroddiad am ddamwain a dderbyniwyd achoswyd 24 (≈30%) gan bobl yn llithro, yn baglu neu'n disgyn. Cafwyd 8 adroddiad arall (≈10%) a oedd yn gysylltiedig â chael eu taro gan rywbeth (e.e. drws) ac roedd y rhan fwyaf o ganlyniad i ddigwyddiad trafod â llaw.

**Dadansoddiad fesul achos (yn ol cyfanswm y digwyddiadau)**




O'r 37 digwyddiad yn gysylltied â thrafod â llaw, roedd 14 yn friwiau mân (*e.e. i'r dwylo/bysedd*), roedd 7 yn llosgiadau mân/mewn mannau (*gan amlaf gan bopty, gril neu ddŵr poeth / deunyddiau*), 4 digwyddiad yn gysylltiedig â "thynnu cyhyrau neu'r cefn" a 2 yn ymwneud ag anafiadau gyda nodwyddau a ddigwyddodd yn yr adran gwyddorau. Hefyd, roedd 2 ddigwyddiad o dorri bawd neu fys, 1 bys troed wedi torri a 7 "arall".

Bu ychydig o ostyngiad yn 2011 yn nifer y damweiniau a achoswyd gan bobl yn llithro, yn baglu ac yn disgyn, sef 30% o'r holl adroddiadau.

Damweiniau a digwyddiadau arall

Mae'r adroddiad uchod yn cyfeirio at y damweiniau a'r anafiadau a arweiniodd at "anaf" ac a ddigwyddodd o ganlyniad i waith y Brifysgol. Derbyniwyd 71 adroddiad arall hefyd yn ystod y flwyddyn ac maent wedi eu rhannu fel a ganlyn:

[4] Rheoliadau adrodd am anafiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus


- 37 anafiadau wrth gymryd rhan mewn chwaraeon
- 20 adrodd am anafiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu bryderon
- 14 achos o salwch ac arall

Absenoldeb Salwch Ymysg Staff

Cofnodwyd cyfradd absenoldeb salwch o oddeutu **5.8** diwrnod y cyflogai llawn amser yn 2011. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 6.0 diwrnod yn y sector yn genedlaethol (DU) sy'n ostyngiad ar y gyfradd yn 2010, a oedd yn 6.43 diwrnod.

Mae'r Gyfradd Absenoldeb Salwch o 5.8 diwrnod yn 2011 yn cyfateb i golli 2.23% o'r amser sydd ar gael oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2010 oedd 2.46%.

Cyfradd absenoldeb salwch (cymharu)
(diwrnodau yr aelod staff [FTE] y flwyddyn)





Roedd 71% o staff y Brifysgol ***heb adrodd*** yr un diwrnod o absenoldeb salwch yn 2011 (69% yn 2010).

*Deallir bod amrywiaeth yn y ffordd y caiff absenoldeb ei gofnodi ar draws y sector a thu hwnt, felly nid yw'n bosibl cymharu ar sail sefydliadau.*

Yn 2011 bu gostyngiad o 7% yn yr absenoldebau tymor hir o ganlyniad i gyflyrau cyhyrysgerbydol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gydag absenoldebau yn gysylltiedig â chyflyrau seicolegol wedi eu hardystio yn aros o gwmpas yr un lefel.

Y prif 5 achos am absenoldeb wedi eu hardystio (mwy na 20 diwrnod)





O dan y categori cyflwr cyhyrysgerbydol tymor hir roedd 16 achos o dorri esgyrn/anafiadau, 3 achos o boen/anaf i'r cefn a 16 achos arall o gyflyrau cyhyrysgerbydol cyffredinol (yn gynnwys anaf i'r ysgwydd, arthritis).

Digwyddiadau Larymau Tân

Mae gan y Brifysgol 96 adeilad[5] sydd â systemau larwm tân, sydd wedi eu gosod yn bennaf mewn cyfleusterau a ddefnyddir a rhai allweddol neu bwysig ar gyfer storio. Mae nifer fechan o adeiladau risg isel a ddefnyddir nad oes ganddynt system larwm tân.

Yn 2011 bu ychydig o gynnydd yn nifer yr achosion o seinio larymau tân yn y 96 adeilad sef **164**, o gymharu â 156 yn y flwyddyn flaenorol.


Cyfanswm achosion o seinio larymau tan
Prifysgol Bangor




[5] Yn cynnwys neuaddau preswyl Gwalia a Chymru a'r gorllewin

Gellir rhannu'r 164 digwyddiad larwm tân i ddynodi'r nifer o weithiau y seiniodd y larymau yn y ddwy brif ran o stadau'r Brifysgol, sef yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academaidd/gweinyddol .


**Seinio larymau tan fesul ystad**




Cyfradd yr achosion o seinio larymau tân na gynlluniwyd yn 2011 oedd **1.7** yr adeilad, a **18.46** o ddigwyddiadau fesul 1000 o synwyryddion[6].

Er mwyn helpu i fesur perfformiad diogelwch tân cyffredinol y Brifysgol, cymerir y data gyda chyfartaleddau cenedlaethol y sector addysg uwch. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn bosibl dim ond ar gyfer adeiladau preswyl ac fe'i cyfrifir yn ôl 1000 o ystafelloedd gwely a fesul 1000 o synwyryddion.

**Seinio larymau tan fesul 1,000 o ystafelloedd gwely**




| | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bangor | 61 | 63 | 120 | 66 | 69 | 75 | 46 | 38 | 35 |
| Sector | 57 | 57 | 80.16 | 69 | 77 | 84 | 87 | 77 | 94.4 |

Fel a nodir uchod, cyfradd yr achosion o seinio larymau tân yn neuaddau preswyl y Brifysgol oedd **35** fesul 1000 o ystafelloedd gwely, sy'n cymharu'n ffafriol gyda'r cyfartaledd cenedlaethol[7] o **94.4** o weithiau fesul 1000 o ystafelloedd gwely.

Y gyfradd seinio genedlaethol[8] fesul 1000 o synwyryddion mewn llety preswyl yw **75.9,** cyfradd y Brifysgol yw **20.34**.

Tân

Rhoddwyd gwybod am ddau dân yn 2011, roedd un mewn bin allanol ac roedd y llall yn ddigwyddiad o bwys a achosodd lawer o ddifrod i'r adeilad coffa yn y safle Gwyddoniaeth.

Achoswyd y tân hwn gan nam mewn 'cwpwrdd tyfu' ac a arweiniodd at achosi llawer o ddifrod mwg a thân i nifer o ystafelloedd. Roedd y lle yn wag ar y pryd a llwyddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddelio â'r digwyddiad yn gyflym ac yn broffesiynol.

Ni chafodd neb eu hanafu, a thalodd yr yswiriant am atgyweirio'r difrod i'r adeilad.

Yn ystod 2011 galwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru allan i adeiladau'r Brifysgol 149 o weithiau.

Ceir adroddiad mwy manwl am danau a seinio larymau tân yn 2011 ar wefan yr adran iechyd a diogelwch.

Camau Gorfodi

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2011 ac ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ffurfiol.

Achosion sifil (mewn perthynas ag I&D)

Derbyniwyd un achos yn hawlio iawndal am niwed o dan atebolrwydd cyhoeddus yn 2011; mae'r achos hwn yn cael ei wrthwynebu gan gwmni yswiriant y Brifysgol.

Ni fu unrhyw achos o hawlio iawndal o dan atebolrwydd y cyflogwr.

[6] Mae oddeutu 8,882 o synwyryddion ar draws y ddwy ystad

[7] Yn seiliedig ar ganlyniadau oddi wrth 63 prifysgol 2010/11

[8] Mae'r cymharyddion ystadegol uchod yn codi pryderon bod y data a fesurir yn anghywir. Mae'r set data cenedlaethol yn cael ei herio ar hyn o bryd (Mai 2012)

Prif Ddigwyddiadau

Yn ogystal â'r digwyddiad tân a adroddwyd uchod caewyd meithrinfa gofal plant y Brifysgol yn wirfoddol ym mis Tachwedd 2011 o ganlyniad i achos o'r haint *E.coli* 0157 mewn dau blentyn sy'n defnyddio'r cyfleuster.

Defnyddiwyd llawer o'r staff ac adnoddau ariannol i reoli a datrys y sefyllfa ac ail-agorodd y Feithrinfa o fewn wythnos. Ar lefel y Brifysgol, sefydlwyd Grŵp Rheoli Argyfwng i oruchwylio'r sefyllfa a sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei ddarparu i staff y feithrinfa.

Daethpwyd i'r casgliad nad oedd y bacteriwm *E.coli* 0157 yn deillio o oddi fewn y feithrinfa ac mae'n debygol ei fod wedi cael ei gario i mewn i'r cyfleuster gan blentyn, gyda thraws halogi yn digwydd rhwng y plant yn ystod y cyfnodau chwarae addysgol.

Mae'r feithrinfa yn cael ei rhedeg dan reolaeth yr Ysgol Seicoleg ac mae'n cynnig gwasanaeth i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd.

Hyfforddiant a Datblygu Staff

Yn ystod y flwyddyn cafodd 120 o gyrsiau eu darparu neu eu hwyluso gan y gwasanaethau iechyd a diogelwch, sef cynnydd o'r blynyddoedd blaenorol.

| ***Blwyddyn*** | ***Nifer y cyrsiau / cyfarwyddyd*** | ***Staff oedd yn bresennol*** |
|---|---|---|
| 2011 | 120 | 1125 |
| 2010 | 91 | 880 |
| 2009 | 84 | 572 |
| 2008 | 64 | 607 |
| 2007 | 48 | 548 |

Bu cynnydd yn nifer y cyrsiau a ddarparwyd neu a ddefnyddiwyd, cynnydd o ≈34% o gymharu â 2010, a bu cynnydd o ≈27% hefyd yn nifer y staff a fu'n bresennol yn y cyrsiau.

Mae'r sylwadau wrth werthuso'r cyrsiau yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn gyda'r rhan fwyaf o'r rhai a atebodd yn gweld y sesiynau yn *"ddefnyddiol iawn"* neu'n *"defnyddiol"* ac yn eu hargymell i'w cydweithwyr.

Adroddiad hunan-werthuso colegau ac adrannau

Gwnaed arolwg eto o'r colegau a'r adrannau yn 2011 i weld sut oedd pob un ohonynt yn hwyluso ac yn rheoli iechyd a diogelwch. Prif ddiben yr arolygon hyn yw helpu i ddynodi cryfderau a gwendidau, fel y gall y gwasanaethau iechyd a diogelwch deilwro eu cymorth.

Roedd yr atebion cyffredinol yn dda, gyda llawer o golegau ac adrannau yn nodi perfformiad da iawn.

Rhagwelir y bydd y broses hunanwerthuso yn cael ei haddasu yn 2013 er mwyn gwella'r prosesau a ddefnyddir ymhellach.

Archwiliadau ac adolygiadau ffurfiol

Parhawyd i gynnal archwiliadau o golegau ac archwiliadau gyda themâu yn ystod y flwyddyn, ac yn arbennig cwblhawyd prif archwiliad o un Coleg.

Yn gyffredinol roedd canfyddiadau'r archwiliadau yn gadarnhaol iawn gyda llawer o enghreifftiau o arferion da wedi eu dynodi.

Lluniwyd cynlluniau gweithredu ar ddiwedd pob archwiliad a lle bo'n ofynnol rhoddir cymorth ychwanegol i helpu colegau ac adrannau.

Ystadegau'r wefan

Mae'r wefan Iechyd a Diogelwch yn parhau i ehangu ac mae'n datblygu i fod yn gronfa fuddiol o gyngor ac o adnoddau iechyd a diogelwch penodol y Brifysgol.

Yn ystod 2011 cafodd gwefan iechyd a diogelwch y Brifysgol (bangor.ac.uk/hss) **13,128** o ymweliadau, gyda **47,643** tudalen yn cael eu hagor, mwy nag yn 2010.

Bu staff y myfyrwyr y Brifysgol yn ymweld â'r wefan dros **6,400** o weithiau.

Datblygu Polisi

Mabwysiadwyd y polisïau newydd neu'r polisïau diwygiedig canlynol, a'r canllawiau cysylltiedig, yn 2011:

- Teithio Dramor
- Dirgryndod yn y Gwaith
- Gwybodaeth am Iechyd a Diogelwch a Hyfforddiant

Ymgynghorir ynglŷn â phob polisi ar draws y Brifysgol cyn iddynt gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ar ran y Cyngor.

Datblygu Dogfennau

Yn ogystal â chanllawiau ategol i bolisïau newydd cynhyrchwyd nifer o ddogfennau a gwefannau eraill yn ystod y flwyddyn. Dyma rai ohonynt:

- Canllawiau chwaraeon a gweithgareddau ar gyfer Undeb y Myfyrwyr
- Gwybodaeth am gefnogaeth iechyd galwedigaethol ar gyfer staff
- Dewisiadau dychwelyd i'r gwaith ar gyfer pobl sydd â salwch tymor hir
- Rheoli contractwyr (Ystadau)
- Diogelwch offer y labordai
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ar gyfer labordai

Arolwg am Ansawdd y Gwasanaeth 2011

O bryd i'w gilydd caiff gwasanaeth iechyd staff y Brifysgol ei werthuso trwy ddefnyddio holiadur i asesu ansawdd y gwasanaeth a dderbynnir gan staff. Yn 2011 cynhaliwyd yr arolwg hwn trwy arolwg ar-lein, gyda dros ddau gant o aelodau staff yn cymryd rhan.

Dangosodd yr arolwg hwn bod bron i bob un a atebodd yn hapus iawn gyda'r gwasanaethau a dderbyniwyd, cyfrinachedd y gwasanaeth ac effeithlonrwydd y gwasanaeth a ddarparwyd.

Ceir rhagor o fanylion am werthuso ansawdd yn adroddiad y gwasanaeth iechyd a diogelwch sydd ynghlwm.

Elusen y Brifysgol, Tŷ Gobaith

Codwyd dros £4,200 yn ystod 2011 i helpu i gefnogi ansawdd bywyd plant lleol, llawer ohonynt sydd â salwch sy'n cyfyngu ar eu bywydau, a helpu gyda gofal seicolegol eu teuluoedd.

Codwyd arian o sawl cyfeiriad; gan gynnwys loteri'r staff, trwy'r Ysgol Gemeg gyda gêm bêl droed rhwng y staff a myfyrwyr a oedd yn llawer o hwyl. Cafwyd yr her colli pwysau unwaith eto, llwyddodd aelodau o'r staff i deithio mewn canŵ o Blas Newydd i Bier Bangor, gwnaed y daith gerdded flynyddol i ben yr Wyddfa a theithiodd un aelod o staff ar gefn beic gyda'r nos rhwng Manceinion a Blackpool.

Mae gwybodaeth bellach o ddigwyddiadau codi arian a gynhaliwyd yn 2011 ar y wefan benodedig: www.bangor.ac.uk/tygobaith

Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru

Yn 2011 cynhaliwyd rhaglen o un ar ddeg sgwrs bob mis a roddwyd i gynrychiolwyr o ddwsinau o gyflogwyr lleol.

Yn ôl gwerthusiad y rhai a aeth i'r sgyrsiau nododd dros 80% ohonynt fod y rhaglen, ansawdd y siaradwyr a'r sgyrsiau yn *"rhagorol"* neu'n *"dda iawn"*.

Derbyniodd y Grŵp gydnabyddiaeth eto gan y 'Safety Groups UK' gan ennill Gwobr Arian am gefnogi sefydliadau lleol ac iechyd a diogelwch.

Gwaith a Gynllunnir ar Gyfer 2012

Mae’r gwaith sydd wedi ei drefnu ar gyfer 2012 yn cynnwys:

- Sicrhau achrediad Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Diogel, Effeithiol o Ansawdd (SEQQOHS) ar gyfer gwasanaethau iechyd y staff
- Cwblhau a dosbarthu dogfen rheoli risg, gofynion polisi a deddfwriaethol wedi eu symleiddio at ddefnydd y Colegau a’r Adrannau
- Archwiliad ar storio, defnyddio a gwaredu ar gemegau wrth ddysgu ac ymchwilio
- Gwella a datblygu’r trefniadau ar gyfer rheoli carsinogenau, teratogenau a chyfryngau mwtagenaidd yn well
- Trefnu digwyddiadau hyrwyddo a chefnogi iechyd arbenigol, gan gynnwys ‘Calon Iach ac ‘Ymwybyddiaeth o Alcohol’
- Datblygu a chyflwyno gweithdrefnau diogelwch a rheoli heintiau wedi eu diwygio ar gyfer cyfleusterau gofal plant
- Gwella’r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan gynnwys datblygu meincnodau ar gyfer rheoli bacteria clefyd y lleng filwyr, tynnu asbestos a chynnal a chadw lifftiau
- Datblygu a chyflwyno system wedi ei symleiddio, ar gyfer datgan deunyddiau wedi eu rhestru o dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth a deddfwriaeth debyg
- Datblygu a chyflwyno polisi diogelwch tân diwygiedig a chanllawiau wedi eu teilwrio

**Diwedd**

**CEFNDIR**

Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn adran ganolog sy'n rhoi cefnogaeth i'r Brifysgol a'i Cholegau, i'r adrannau, staff a myfyrwyr ynglŷn â materion iechyd a diogelwch. Mae rheolwr yr adran yn adrodd i Swyddfa'r Cofrestrydd, gyda'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn cefnogi a chyfarwyddo gwaith yr adran.

Yn ystod 2011 llwyddodd yr adran i barhau i roi cefnogaeth effeithiol i'r Brifysgol a'r staff a'r myfyrwyr, trwy roi gwasanaethau, cyngor a chymorth synhwyrol a chefnogol. Er bod cyfran o amser yr Adran bob amser yn cael ei dyrannu i ymrwymiadau parhaus a gwaith adweithiol sy'n digwydd yn naturiol yn yr amgylchedd sy'n newid yn gyson yn y Brifysgol, gwnaed ymdrech fawr yn 2011 i gynyddu'r gefnogaeth ymarferol a gweithredol a roddir i Golegau ac Adrannau.

**1. MATERION IECHYD**

Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn parhau i ddarparu, cefnogi a hyrwyddo iechyd staff a rhoddir crynodeb o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

- **Osgoi Salwch**

Mae'r rhaglen Gwirio Iechyd Staff a lansiwyd gyntaf yn 2007 ar gyfer y staff presennol yn cael ei chynnig a'i darparu yn awr i staff newydd. Mae'r newid hwn mewn pwyslais yn cynnig gwell gwasanaeth i staff ac mae'n unol â'r Ddeddf Gydraddoldeb ddiweddar. Nid yw'r holiaduron iechyd cyn-gyflogaeth yn ofynnol bellach ac mae'r Gwiriad Iechyd Ôl-Gyflogaeth wedi cymryd eu lle, sy'n rhoi llawer mwy o gefnogaeth a gwybodaeth i'r aelod staff.

Ar hyn o bryd, mae cyfradd y staff newydd sy'n derbyn y rhaglen oddeutu 34%. Byddwn yn ceisio deall pam nad yw pobl yn derbyn y cynnig er mwyn canfod pa ymdrechion eraill gellir eu gwneud i annog pobl i gymryd rhan.

- **Cefnogi Pobl sydd â Salwch Tymor Hir**

Sefydlwyd Grŵp Ffocws i helpu i werthuso'r gefnogaeth a gynigir i staff sydd wedi bod ar absenoldeb salwch tymor hir. Yn gyffredinol roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol iawn ac mae awgrymiadau wedi cael eu cynnwys yn ein dulliau gwaith erbyn hyn er mwyn helpu'r broses dychwelyd i'r gwaith.

Ym mis Ebrill 2010 disodlwyd y nodyn salwch meddygol gan ddatganiad meddygol Ffitrwydd i Weithio. Cafodd ymdrechion Prifysgol Bangor i gefnogi a gwerthuso'r trawsnewidiad hwn ei gydnabod yn ffurfiol gan yr Athro y Fonesig Carol Black, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y DU ar gyfer Iechyd a Gwaith, gan wahodd yr ymarferwr iechyd galwedigaethol i fod yn aelod o weithgor yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfrannodd y grŵp hwn at adolygiad annibynnol o absenoldeb salwch, gyda'r nod o gefnogi pobl gyda chyflyrau iechyd i aros mewn cyflogaeth. Cyflwynwyd y canfyddiadau i'r Senedd ar ddiwedd 2011 trwy bapur cyhoeddedig[9].

- **Cefnogi Mamau Newydd a Mamau Beichiog**

Mae'r cynorthwyydd iechyd a diogelwch wedi cadw cyswllt lles gyda mamau beichiog a mamau newydd. Yn 2011, roedd 61 o ferched yn disgwyl plentyn, ar absenoldeb mamolaeth neu wedi dychwelyd ar ôl absenoldeb mamolaeth. Derbyniodd pob person gyswllt lles rheolaidd ac amserol; diben hyn oedd sicrhau bod newidiadau addas yn cael eu gwneud i'r gweithle er mwyn sicrhau mwy o gysur a chefnogi presenoldeb yn y gwaith. Mewn nifer o achosion, cafwyd ymweliadau ar y cyd gyda swyddog o'r adran Adnoddau Dynol i helpu i roi gwybodaeth i staff am eu hawliau absenoldeb mamolaeth ac am unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael.


- **Goruchwylio Iechyd**

Diben Goruchwylio Iechyd yw gwirio os yw'r gwaith yn achosi niwed ac fe'i rhoddir i staff lle mae eu gwaith yn eu gwneud yn agored i risgiau iechyd posibl sy'n codi o sensiteiddwyr resbiradol neu'r croen, neu drwy ddefnyddio

[9] Black, C. Frost, D (2011) 'Health at Work – an independent review of sickness absence' www.dwp.gov.uk/docs/health-at-work.pdf

peiriannau sy'n dirgrynu.  Rydym yn falch o adrodd na chafodd unrhyw achosion neu broblemau newydd eu canfod yn ystod 2011.

Ar ddechrau'r flwyddyn cafodd ein rhaglen Goruchwylio Iechyd staff a'r Agenda Iechyd ehangach eu dangos fel enghraifft o arfer orau gan yr Awdurdod Gweithredol  Iechyd a Diogelwch mewn adroddiad cenedlaethol  'The Health and Safety of Great Britain: Being part of the solution'[10].


Creating healthier, safer workplaces
\\ one year on

Cover

Foreword

Introduction

The need for strong leadership
\\ Powering Improvement
\\ Home Safe Every Day

Building competence
\\ Young Champions
\\ Target Zero

Involving the workforce
\\ Engaging the Workforce
\\ Better Fume Control by Design

Creating healthier, safer workplaces
\\ Co-operating for a Safer Workplace
\\ Park Health RAG Rating Scheme
\\ Pathways to Health

Customising support for SMEs
\\ Estates Excellence
\\ Stonesafe

Avoiding catastrophe
\\ Step Change in Safety
\\ Process Safety Forum

\\ Case study Pathways to Health

In September 2009, Bangor University signed the pledge to play their part in reducing work-related death, injuries and ill health.

The university is supporting the health and safety strategy through Pathways to Health, a range of initiatives designed by the university's Occupational Health Practitioner (OHP) to help minimise work-related ill health, and to complement the health and safety management systems already in place.

Pathways to Health uses the university's existing annual health surveillance programme, which includes a general health check to staff. Although health checks are not required by health and safety law, they help the university to identify any potential issues at an early stage, allowing for quick intervention and resolution.

In 2009, a case of hand–arm vibration was detected during the annual health surveillance of a gardener. To help understand and resolve any issues the whole gardening team participated in a discussion to identify practical ways to further reduce their exposure to both hand–arm vibration and other health and safety risks involved in their work.

The health check programme also helps to reduce the chance of pre-existing health conditions being compounded by work. Even if not caused by work-related triggers, musculoskeletal disorders like back pain can be affected by workplace activities such as lengthy sitting and lifting. Each year, the OHP organises an eight-week Back Club funded by the university's health and safety budget, which aims to support the person to manage their condition. Those who have suffered back pain within the previous 12 months are invited to attend classes run with the support of the university sports centre. Participants benefit from core stability exercises designed

*(l to r) Gary Martin (Health & Safety Inspectorate) and Professor Merfyn Jones (Vice-Chancellor) signing the pledge at Bangor University*



- **Mentrau Iechyd Eraill:**

Her Colli Pwysau:  Ar ddechrau 2011 ymunodd  13 aelod staff â'r her colli pwysau. Collodd yr aelodau gyfanswm o 170kg gan godi £372 er budd hosbis plant Tŷ Gobaith.

Ysmygu:  Ym mis Mawrth, cynhaliwyd arolwg ar y Diwrnod Dim Smygu Cenedlaethol er mwyn helpu i ddeall y rhesymau pam bod cyn ysmygwyr wedi rhoi'r gorau i ysmygu a'r rheswm pam bod ysmygwyr yn parhau i ysmygu. Rhannwyd y canfyddiadau gyda threfnwyr y diwrnod dim smygu cenedlaethol fel sail tystiolaeth ar gyfer ymgyrchoedd at y dyfodol.  O ganlyniad, derbyniwyd gwobr rhagoriaeth gan ASH Cymru.

Sicrhau Ansawdd:  Gwnaed cais gan y Brifysgol am safon Sicrhau Ansawdd newydd ar gyfer y gwasanaethau cefnogi iechyd galwedigaethol, a elwir yn safon 'Gwasanaethau iechyd galwedigaethol diogel, effeithiol o ansawdd' (SEQOHS). Rheolir y cynllun achredu gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr yn Llundain ar ran y Gyfadran Meddygaeth Alwedigaethol. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys archwilio arferion gwaith iechyd galwedigaethol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â safonau cyfreithiol a phroffesiynol, ymweld â'r safle i asesu'r cyfleusterau lle cyflwynir y gwasanaethau ac asesiad effaith o'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol o fewn y sefydliad sy'n cyflogi.

Er mwyn cefnogi'r cais sefydlwyd Gweithgor, dan arweiniad yr ymarferwr iechyd galwedigaethol.  Roedd y Grŵp yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a staff proffesiynol eraill a gyfrannodd at y portffolio o dystiolaeth.

Gwahoddwyd holl aelodau'r staff i wneud sylwadau, trwy arolwg ar-lein,  am eu profiad o wasanaethau iechyd galwedigaethol y Brifysgol.  Dangosodd prif ganfyddiadau'r arolwg y canlynol:

- cyfradd bodlonrwydd 100% gan y rhai a welwyd am naill ai gwiriad iechyd, cefnogaeth yn ystod beichiogrwydd, help i ddychwelyd o absenoldeb salwch neu oruchwyliaeth iechyd oherwydd peryglon galwedigaethol
- cadarnhaodd 99% o'r staff  y parchwyd eu cyfrinachedd
- gwelwyd 97% o'r staff ar amser
- roedd 92% yn ei gweld hi'n hawdd cysylltu â'r ymarferwr iechyd galwedigaethol
- dywedodd 86% bod eu disgwyliadau o'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu bodloni
- roedd 77% o'r farn eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol i gefnogi eu hiechyd corfforol

[10] www.hse.gov.uk/strategy/one-year-on.pdf

- cadarnhaodd 75% bod y wefan iechyd a lles ddwyieithog yn fuddiol
- roedd 64% o'r farn eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol i gefnogi eu hiechyd meddwl
- roedd 48% eisiau cael hyfforddiant mewn defnyddio diffibriliwr a/neu awtochwistrellwr
- gofynnodd 40% am wybodaeth iechyd achlysurol am amrywiaeth o bynciau fel sut i osgoi clefyd y galon ac ymwybyddiaeth o alcohol

Cynllunio: Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r arolwg staff (y cyfeiriwyd ato uchod) wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu diweddaraf ac roeddent yn sail i'r calendr o weithgareddau iechyd rhwng mis Medi 2011 a mis Awst 2012.

Gofalu am y Cefn: Mae'r wythnos genedlaethol gofalu am y cefn yn ddigwyddiad blynyddol caiff ei gynnal bob mis Hydref. Yn ystod y digwyddiad yn 2011 cafodd staff gyfle i ymuno â chlwb gofalu am y cefn oedd â'r nod o wella sefydlogrwydd craidd gan fod cryfhau'r cyhyrau hynny yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o boen cefn gwanychol.



Hefyd rhoddodd clinigwr arbenigol gyfres o sgyrsiau gofalu am y cefn a dosbarthiadau ymarfer i staff. Roedd y mwyaf o'r staff oedd yn bresennol yn aelodau o'r adran stadau a chyfleusterau ac mae eu gwaith yn cynnwys tasgau trafod â llaw yn rheolaidd. Hefyd trefnwyd sgyrsiau yn ystod y flwyddyn ar gyfer aelodau staff o'r tîm llyfrgell ac archifau. Diben y sgyrsiau hyn oedd disgrifio sut mae'r cefn yn gweithio a'r camau gall unigolion eu cymryd i sicrhau ffitrwydd i weithio ac osgoi cael problemau cefn a phroblemau cyhyrol eraill yn y lle cyntaf.

Alcohol: Amcan yr ymgyrch ymwybyddiaeth o alcohol blynyddol yw hybu yfed diogel ymhlith staff a myfyrwyr yn ystod cyfnod y Nadolig ac ar adegau eraill.



Anfonwyd e-bost ymgyrch alcohol ar 5 Rhagfyr 2011 at yr holl staff a rhoddwyd copïau papur o daflen yr ymgyrch i oruchwylwyr staff fel y gallent eu dosbarthu i grwpiau staff nad ydynt ar y rhyngrwyd. Cynigiwyd gwobr er mwyn annog pobl i ddarllen yr wybodaeth a'i hystyried yn ofalus. Diben yr e-bost a'r ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth am y cyfyngiadau yfed a gyrru, hyrwyddo rhoi diodydd di-alcohol am ddim i yrwyr mewn digwyddiadau staff a myfyrwyr dros ŵyl y Nadolig, codi ymwybyddiaeth am ganllawiau'r Adran Iechyd am gyfyngiadau yfed alcohol, atgoffa pobl am y canlyniadau cymdeithasol y gall ymddygiad a achosir gan alcohol ei gael ar drigolion cyfagos a rhoi gwybod i yfwyr faint o galorïau sydd mewn alcohol.

Anfonwyd yr e-bost a'r daflen i oddeutu 2,000 o staff, gyda 540 yn ymweld â'r wefan (27% o staff Prifysgol Bangor). Gwnaeth 68 aelod staff gystadlu i ennill pryd o fwyd i ddau yng Nghaffi Teras y Brifysgol.

Daeth cyfarfod gwerthuso i'r casgliad bod rhaid gwneud mwy fel y gellir ymestyn negeseuon iechyd am yfed yn gyfrifol drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond adeg y Nadolig. Mae hyn wedi arwain at y canlynol:

a) Cynlluniau ar gyfer digwyddiad hyrwyddo 'Mocktails', fydd yn cyflwyno rhagor o bobl i'r coctels di-alcohol a hyrwyddwyd yn yr ymgyrch adeg y Nadolig.
b) Yr amserlen iechyd 2012/13 fydd yn cynnwys menter 'Dadwenwyno'

## 2. MATERION DIOGELWCH

Gan fod iechyd a diogelwch yn un o'r meysydd a reolir fwyaf yng ngweithgareddau'r Brifysgol mae'n golygu llawer o heriau a llwythi gwaith trwm. Mae'r tîm bychan o staff wedi ymrwymo i gefnogi'r Brifysgol a'i cholegau, adrannau, staff a myfyrwyr i sicrhau ein bod nid yn unig ar "ochr iawn y gyfraith" ond hefyd i wneud yn siŵr bod y cyngor a'r gefnogaeth a roddir wedi eu teilwrio fel y gall gweithgareddau gael eu cynnal, hyd yn oed gydag elfen o risg.

- **Archwiliadau System Rheolaeth Iechyd a Diogelwch - Colegau**

Cynhaliwyd archwiliad o system rheoli iechyd a diogelwch y Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad yn ôl gofynion OHSAS 18001/2 yn 2011 a gwelwyd bod perfformiad iechyd a diogelwch y Coleg yn 'dda iawn'. Ond ar ôl hynny cytunodd y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch i ohirio'r broses archwilio dros dro hyd nes y gellid cynhyrchu canllaw ar gefnogi system rheoli iechyd a diogelwch y Coleg a chynhyrchu ffurflen barod gyda chymorth y Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad. Roedd y broses archwilio yn argymell diwedd 2011.

- **Archwiliadau ac Adolygiadau gyda Themâu**

Arolwg Radon: Parhaodd yr Arolwg Radon yn 2011 gyda 42 monitor wedi eu gosod ym mis Rhagfyr o fewn adeiladau'r Brifysgol nas fesurwyd o'r blaen ac mewn adeiladau lle gwnaed gwaith lliniaru radon i gadarnhau effeithlonrwydd y gwaith. Hefyd mae'r Adran wedi darparu cyngor a chefnogaeth i Brifysgolion eraill mewn perthynas â chynnal eu harolygon radon eu hunain.

Adolygiad Ysmygu: Cwblhawyd adolygiad o'r polisi dim ysmygu yn 2011. Roedd yr adroddiad dilynol a gyflwynwyd i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch yn tynnu sylw at yr anawster o gydymffurfio â rheol 5 metr y Brifysgol. Er y cynigwyd ffyrdd o ddatrys y broblem cytunwyd yn gyffredinol na ellid ei datrys gydag un ateb syml, a nodwyd mai pwysau gan gymheiriaid yw'r ffordd orau i orfodi'r rheol.

- **Polisïau / Dogfennau**

Er mwyn sicrhau bod ethos y gwasanaeth iechyd a diogelwch o ddarparu cyfarwyddyd a chanllawiau clir a defnyddiol yn cael ei wella eto, datblygwyd nifer o bolisïau newydd a rhai wedi'u diwygio, sef y Polisi Hyfforddiant a Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch (diwygiedig), Rheoli Dirgrynu yn y Gweithle (newydd) a'r Polisi Teithio Dramor (diwygiedig).

Mae'r Polisi Teithio Dramor wedi ei gefnogi gyda system ar-lein ar gyfer asesu risg a chael Yswiriant Teithio. Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen, yn symleiddio prosesau asesu risg teithio dramor ac yswiriant y Brifysgol a oedd yn feichus ac yn cael eu camddeall yn aml. Mae'r system newydd hefyd yn sicrhau bod staff a myfyrwyr wedi ystyried y risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch fel y gellir rhoi trefniadau /yswiriant priodol yn eu lle cyn teithio. Yn ystod y cyfnod rhwng mynd yn fyw ym mis Medi 2011 a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ym mis Tachwedd derbyniodd y system dros 350 o geisiadau.

Hefyd yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Polisi Diogelwch Tân (2010) gwnaed llawer o waith i adolygu'r Polisi Diogelwch Tân cyfredol (HSG28). Roedd hyn yn cynnwys creu Polisi Diogelwch Tân newydd a'r canllawiau rheoli cysylltiedig, mewn ymgynghoriad â'r Gweithgor Tân a sefydlwyd hefyd fel rhan o'r adolygiad ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o wahanol golegau ac adrannau yn y Brifysgol.

Rhoddwyd cefnogaeth helaeth i'r adran ystadau a chyfleusterau i ddatblygu eu dogfennau iechyd a diogelwch.

- **Ffurflenni Hunan Werthuso**

Gwnaed arolwg arall o'r colegau a'r adrannau yn 2011 i weld sut oedd pob un ohonynt yn hwyluso ac yn rheoli iechyd a diogelwch. Roedd yr ymateb yn dda yn gyffredinol. Mae'r broses hefyd yn helpu'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i ddynodi cryfderau a gwendidau fel y gall yr adran deilwro'r cymorth.

Rhagwelir y bydd y broses hunanwerthuso yn cael ei haddasu yn 2013 er mwyn hwyluso gwell dealltwriaeth o berfformiad ac arferion.

- **Hyfforddiant**

Yn ystod y flwyddyn darparwyd neu hwyluswyd 120 o gyrsiau gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, cynnydd o 34% ar nifer y cyrsiau a ddarparwyd neu a ddefnyddiwyd yn 2010. Roedd y sesiynau yn amrywio o'r hyn a ystyrir yn brif gyrsiau iechyd a diogelwch, e.e. asesu risg, diogelwch tân, trafod â llaw, cwrs ymgynefino iechyd a diogelwch, i gyrsiau mwy arbenigol fel straen, diogelwch yn y labordy, ymwybyddiaeth o Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a chyrsiau a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion penodol coleg neu adran.


Hefyd bu'r adran yn gweithio'n agos gyda'r adran ystadau a chyfleusterau yn codi ymwybyddiaeth y staff am iechyd a diogelwch. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys creu cyrsiau hyfforddi modiwlaidd, a oedd yn gweithredu fel blociau adeiladu, gan datblygu'r dysgu gyda phob cwrs.

Bu'r adran yn cefnogi Swyddfa'r Cofrestrydd yn hwyluso ymarfer hyfforddi i asesu ymateb staff diogelwch y Brifysgol i ddigwyddiad ffug o ymbelydredd yn cael ei golli. Roedd ymateb y staff diogelwch i'r digwyddiad yn eithriadol, yn tynnu sylw at gyfraniad helaeth ond yn aml yn 'anweledig' y staff diogelwch i weithrediad y Brifysgol o ddydd i ddydd.

- **Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol - Meincnodau**

Mae'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi ei ddatblygu ers pum mlynedd ac mae'n asesu'r prif risgiau ar gyfer dros ddeugain o 'feysydd risg'. Fel yr adroddwyd llynedd, roedd y dull o weithredu trwy'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ddiweddar wedi elwa o gael perthynas waith agos gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ganfod dull mwy pwyllog o reoli risg.

Mae 8 cam i'r dull, ac mae'n dechrau gyda datganiad yn nodi beth yn union sydd i'w gyflawni erbyn diwedd y broses (ffigur 1).




**Ffigur 1**

Mae dwy brif ran i Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Brifysgol ar hyn o bryd. Mae'r dull asesu gwreiddiol a thraddodiadol yn parhau ar gyfer pob maes risg a ddynodwyd yn flaenorol ac mae'r rhain wedi eu

gwella ymhellach trwy ddefnyddio'r broses 8 cam ar gyfer nifer o feysydd risg allweddol, fel rheoli asbestos, ymbelydredd (ffynonellau agored) a rheoli radon.

Dros y blynyddoedd sydd i ddod bydd y dull hwn yn cael ei ddatblygu i fod yn fecanwaith cynhwysfawr a mesuradwy i ddynodi beth yn union rydym yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n cael ei gyflawni a sut mae perfformiad yn cael ei fesur a'i fonitro.

Mae targedau perfformiad posibl yn adlewyrchu'r lefelau canlynol:

1. Cydymffurfio â'r gyfraith cyn belled â nad yw'n rhoi neb mewn sefyllfa o risg sylweddol
2. (Lefel 1+) Cyflawni nifer o ddangosyddion arfer dda allweddol a ddynodwyd
3. (Lefel 1+) Cyflawni arfer dda ym mhob un o'r meysydd neu mewn cyfran sylweddol ohonynt
4. (Lefel 1+) Gwneud yn well nag arfer dda mewn nifer o feysydd mesuradwy
5. Cael eu hystyried yn batrwm penigamp ac yn perfformio tu hwnt i arfer dda mewn nifer fawr o feysydd mesuradwy.

Mae'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch yn goruchwylio datblygiad parhaus yr Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

- **Achos o *E.coli* 0157**

Yr eitem bwysicaf i'w nodi yw'r gefnogaeth a roddodd yr adran i Feithrinfa Tir Na n-Og pan gaewyd y feithrinfa yn wirfoddol ar 18 Tachwedd a'r cyfnod wedi hynny. Roedd hyn o ganlyniad i hysbysiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bod plentyn, a rhiant plentyn oedd yn mynd i'r Feithrinfa, wedi cael diagnosis o *E. coli* 0157.

Ar ôl rhoi gwybod am yr achosion, cafwyd ymweliadau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Diogelwch Bwyd Cyngor Gwynedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bu'r adran yn cydgysylltu gyda phob parti, gan gynnwys gwahanol adrannau o'r Brifysgol yn cefnogi'r broses ymchwilio er mwyn canfod achos y bacteriwm, yn rhoi cyngor priodol i staff a sicrhau bod gwaith adfer, newidiadau trefniadaethol ac ati yn cael eu rheoli a'u hymdrin yn gyflym i gyflawni'r camau gweithredu a oedd yn ofynnol gan yr Awdurdodau Rheolaethol neu ni fyddai'r Feithrinfa yn gallu ailagor.

Dylid nodi na chafwyd diagnosis o ragor o achosion o *E.coli* ymhlith staff a phlant y feithrinfa. Roedd pob sampl a gymerwyd o arwynebau yn y feithrinfa hefyd yn glir o *E.coli 0157,* heb **unrhyw gyswllt achosol** yn cael ei wneud gyda gweithgareddau'r feithrinfa na'r gegin.

Daeth yn glir o'r dechrau bod cyngor a chyfarwyddiadau'n cael eu derbyn o wahanol asiantaethau a chyrff awdurdodol ac yn ystod yr wythnos pan gaewyd y feithrinfa roedd y sefyllfa hon yn achosi straen diangen i reolwyr a staff y feithrinfa. O ganlyniad mae'r gwasanaethau iechyd a diogelwch yn parhau yn eu hymdrechion i geisio cael eglurder am swyddogaethau a chyfrifoldebau gyda'r awdurdodau a'r cyrff gorfodi a statudol perthnasol mewn perthynas â rheoli a rhoi cyfarwyddyd a chyngor mewn achosion o'r fath.

- **Undeb y Myfyrwyr**

Er mwyn helpu i gefnogi dulliau rheoli iechyd a diogelwch yr Undeb Athletau cynhaliwyd adolygiad o bolisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yr Undeb Athletau. Roedd hyn yn cynnwys asesu'r safonau a'r gweithdrefnau presennol yn erbyn y rhai a gynhyrchwyd gan Gyrff Cenedlaethol a Chyrff Proffesiynol a chynhyrchu protocolau clir a syml fel y gall clybiau eu dilyn.

Arweiniodd yr ymarferiad at ddiwygio polisi iechyd a diogelwch yr Undeb Athletau a chynhyrchu llyfrynnau iechyd a diogelwch newydd ar gyfer pob un o'r 42 clwb a aseswyd. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth benodol am iechyd a diogelwch a ffeithiau ac awgrymiadau diddorol a defnyddiol sy'n berthnasol i weithgareddau'r clwb.

- **Crynodeb o Weithgareddau Cefnogi Eraill**

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r math o gymorth o ddydd i ddydd y gofynnir i'r adran ei ddarparu i golegau neu adrannau.

Gwasanaethau Myfyrwyr: Rhoddir cefnogaeth barhaus i'r Gwasanaethau Anabledd i sicrhau bod cynlluniau personol ar gyfer gadael adeilad mewn argyfwng yn cael eu paratoi ar gyfer myfyrwyr, a ddynodir ar ôl cael eu hasesu eu bod angen cymorth wrth adael adeilad mewn argyfwng. Hefyd ar ôl ailstrwythuro'r Gwasanaethau Myfyrwyr, cynhaliwyd adolygiad o'u trefniadau iechyd a diogelwch gan arwain at baratoi polisi iechyd a diogelwch newydd a dogfennau ategol. Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Anabledd i asesu'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch presennol ar gyfer Gweithwyr Cefnogi a benodir i helpu myfyrwyr anabl mewn nifer o ffyrdd; er enghraifft, cymryd nodiadau, mentoriaid a gweithwyr cefnogi dysgu.

Clwb Nos Myfyrwyr: I ddechrau roedd yr adran yn cefnogi'r adran ystadau a chyfleusterau yn 2010 i baratoi adroddiad o asesiad effaith a gyflwynwyd i Gyngor Gwynedd er mwyn cryfhau'r cais am ganiatâd cynllunio. Ar ôl cael caniatâd cynllunio, rhoddodd y gwasanaethau iechyd a diogelwch gymorth parhaus i'r Adran Ystadau a Chyfleusterau, Undeb y Myfyrwyr ac Undeb Trading yn ystod y gwaith adeiladu dilynol a pan agorwyd y Clwb er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau yn y clwb newydd yn ddiogel a bod yr amgylchedd allanol o amgylch y clwb yn ddiogel i staff a myfyrwyr weithio ac astudio yno.

Ymbelydredd: Cyn agor y clwb roedd rhaid symud y Storfa Ymbelydredd a oedd wedi ei leoli yn y seler yn adeilad Robinson. Roedd y broses hon yn cynnwys dadlygru a chlirio hen labordy yn yr adeilad coffa a gwaith adfer i sicrhau y byddai'r trefniadau diogelwch yn bodloni Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n cyhoeddi'r trwyddedau ymbelydredd perthnasol. Treuliwyd nifer o ddiwrnodau hefyd gyda'r Cynghorwr Diogelwch Ymbelydredd i wneud yn siŵr bod y stociau o ymbelydredd wedi eu hadleoli'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol. Galluogodd y broses hefyd i stociau dros ben o garbon 14 a tritiwm gael eu dynodi a'u gwaredu, gan leihau'n sylweddol peryglon radiolegol y Brifysgol. Creodd y gwaith hwn mwy o le, o ran cael yr awdurdod i brynu stociau newydd.

Cyfryngau Cemegol a Biolegol: Bu'n glir ers peth amser bod rhai labordai yn cynnwys cyfryngau cemegol a biolegol nad oedd eu hangen bellach gan fod y gwaith dysgu neu ymchwil yn y meysydd hynny wedi dod i ben. Yn 2011 gwnaed llawer o ymdrech i gofnodi a gwaredu ar stoc dros ben ar draws nifer o Golegau. Cafodd cyfanswm o 8 tunnell o gemegau, gan gynnwys rhai cyfryngau biolegol, eu symud o'r Brifysgol. Mewn rhai achosion roedd y gwaith hefyd yn cynnwys dadlygru hen labordai a chyfarpar, a wnaed yn fewnol unwaith eto er mwyn rhoi sicrwydd i'r Brifysgol bod y gwaith yn cael ei wneud yn iawn.

Adran Ystadau a Chyfleusterau: Fel rhan o adrefnu'r Adran Ystadau a Chyfleusterau mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi gweithio'n agos gyda'r isadran ystadau ac eiddo i ddatblygu gwell trefniadau Rheoli Contractwyr, hwyluso a chyflawni hyfforddiant modiwlaidd ar gyfer staff proffesiynol a chynllunio diogelwch. Yr amcan yn y tymor canol yw cyflwyno gwell rheoliadau, systemau cyfathrebu a rheoli ar gyfer contractau a chontractwyr, a chefnogi staff trwy ddatblygu hyd yn oed gwell dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o oblygiadau cyfreithiol a diogelwch eu gwaith.

Mae'r systemau a'r trefniadau diogelwch a ddefnyddir ar draws yr Adran Ystadau a Chyfleusterau yn cael eu datblygu'n barhaus a byddant gyda hyn, os parheir gyda'r un ymroddiad a momentwm, yn esiampl ardderchog yn fewnol ac yn allanol.

- **NWWHSG**

Mae Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru yn cael ei hwyluso gan y gwasanaethau iechyd a diogelwch ac fe'i sefydlwyd i alluogi cyflogwyr lleol i gefnogi ei gilydd wrth hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da. Trefnodd y Grŵp un ar ddeg o sgyrsiau misol yn 2011 gyda'r pynciau'n amrywio o Reoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith i'r pwnc mwy anarferol o Reoli Diogelwch yn yr Amgylchedd Morol. Mae'r sgyrsiau yn cael eu croesawu bob amser gyda dros

80% o'r rhai a oedd yn bresennol yn nodi bod y rhaglen, ansawdd y siaradwyr a'r sgyrsiau yn "rhagorol" neu'n "dda iawn".

Hefyd cynhaliodd y Grŵp gynhadledd *Ever Changing World of Health and Safety* ym mis Medi gyda llawer o bobl yn bresennol. Derbyniodd y Grŵp gydnabyddiaeth unwaith eto gan y 'Safety Groups UK' gan ennill Gwobr Arian am gefnogi sefydliadau lleol ac iechyd a diogelwch.